



# Fframwaith Rheoli Perfformiad



Gorffennaf 2019

# Cynnwys

---

1. Cyflwyniad .....	2
2. Egwyddorion a Diwylliant.....	3
3. Cynllunio Corfforaethol.....	5
4. Dangosyddion Perfformiad .....	7
5. Monitro.....	9
6. Hunanwerthuso .....	10
7. Seilwaith ac Adnoddau.....	11

Os oes eisiau rhagor o wybodaeth arnoch chi neu’r ddogfen hon ar ffurf arall, mae croeso i chi gysylltu â:

Polisi  
Parth 2D, Neuadd y Sir  
Freemans Way  
Hwlfordd  
SA61 1TP

[policy@pembrokeshire.gov.uk](mailto:policy@pembrokeshire.gov.uk)




# 1. Cyflwyniad

- 1.1. Mae'r ddogfen hon yn egluro'r modd y byddwn yn ymdrin â rheoli perfformiad. Mae'n disgrifio'r systemau, y strwythurau a'r trefniadau ategol yr ydym wedi eu sefydlu er mwyn canfod ac ymateb i faterion perfformiad a chynnal gwelliant parhaus.
- 1.2. Mae ein fframwaith perfformiad yn berthnasol i bob gwasanaeth y mae'r Cyngor yn ei reoli'n uniongyrchol. Fodd bynnag, mae modd hefyd ei gymhwyso i'r gwasanaethau hynny yr ydym yn eu cyflenwi ar y cyd â sefydliadau eraill: sefydliadau sy'n bartneriaid statudol a cyrff cyflenwi rhanbarthol.
- 1.3. Bydd rheoli perfformiad yn effeithiol yn ein helpu ni i gyflawni'r amcanion canlynol:

Helpu i wella gwasanaethau a deilliannau ar gyfer pobl	Mae'r nodau wedi'u blaenoriaethu ac adnoddau wedi'u dosbarthu'n effeithiol
Grymuso rheolwyr a gweithwyr	Mae cymhelliad gan y gweithwyr, maent yn ymwybodol o'u targedau eu hunain ac yn deall eu cyfraniad at gyflawni prif ddeilliannau'r Cyngor.
Sicrhau bod y Cyngor a'u partneriaid yn cyflawni'r hyn yr oeddem yn bwriadu ei wneud	Rhoi rhybudd cynnar o berfformiad gwael a chyfle i'w gywiro
Hybu gwelliant ymlaen at y dyfodol	Mae'r fframwaith yn rhoi sail o dystiolaeth er mwyn gwneud penderfyniadau'n well a defnyddio adnoddau'n effeithlon

- 1.4. Er ei bod yn bwysig i'r fframwaith hwn ddal i fod yn hyblyg, ni fydd ei elfennau sylfaenol yn newid. Mae'r fframwaith hwn yn disgrifio'r elfennau hynny yn fwy manwl. Mae'n cynnwys:
  - y diwylliant sy'n tanategu ein dull o ymdrin â rheoli perfformiad,
  - y modd y mae ein dull o ymdrin â chynllunio corfforaethol yn hybu gwelliant,
  - y swyddogaeth y mae dangosyddion a thargedau yn ei chyflawni yn ein system rheoli perfformiad,
  - y modd yr ydym yn monitro gweithredoedd, a'r
  - seilwaith a'r adnoddau yr ydym yn eu defnyddio i gaffael, coladu a dadansoddi gwybodaeth am berfformiad.
- 1.5. Ers 2010 rydym ni wedi ymateb i'r ddyletswydd i sicrhau gwelliant parhaus fel yr amlinellir hynny yn y Mesur Llywodraeth Leol 2009. Bydd Swyddfa Archwilio Cymru'n asesu ein perfformiad a'n cydymffurfriad gyda'r ddyletswydd hon fel rhan o'u Hadroddiad Blynyddol. Ers gweithredu Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015, mae gofyn hefyd i'r Cyngor ddangos sut y mae'i flaenoriaeth yn cyfrannu at Amcanion Cynllun Llesiant Lleol a Nodau Llesiant Cenedlaethol.



## 2. Diwylliant

---

- 2.1. Mae llawer o'r ddogfen hon yn canolbwyntio ar y systemau yr ydym wedi eu datblygu i'n helpu ni i reoli perfformiad. Heb fod yn ddim llai pwysig na'r systemau hyn o ran hybu gwelliant, fodd bynnag, mae'r diwylliant sy'n tanategu'r sefydliad.
- 2.2. Fel sefydliad, rydym yn gweld ein pwrpas yn glir. Ein datganiad o weledigaeth yw: *Gweithio gyda'n gilydd, gwella bywydau*
- 2.3. Mae gwaith tuag at ein gweledigaeth wedi'i danategu gan y datganiad o genhadaeth isod:
  - **Ymdeimlad o Bwrpas:** Ein pwrpas yw ysbrydoli a chynorthwyo unigolion, cymunedau a sefydliadau er mwyn sicrhau gwelliannau i les cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol.
  - **Gwelliant:** Ein nod fydd trawsnewid y ffordd mae'r sefydliad yn gweithio, gan arloesi a chwilio am yr arferion gorau i'n helpu ni i gyflawni mewn ffyrdd mwy effeithiol ac effeithlon. Ein nod fydd parhau i wneud dewisiadau doeth, trwy dorri'r gôt yn ôl y brethyn ac osgoi prosesau diangen a gwastraff.
  - **Cydweithio:** Byddwn yn cydweithio i helpu darparu cymorth a gwasanaethau cysylltiedig i drigolion, cymunedau a sefydliadau Sir Benfro, ac ymwelwyr â'r sir. Rydym yn ymroi i ddatblygu partneriaethau effeithiol gyda chyrrff sector cyhoeddus, preifat a gwirfoddol o fewn y sir, a'r tu allan i'r sir, yn barhaus.
- 2.4. Bydd y newid diwylliannol yr hoffem ei gyflwyno yn llywio system arfarnu cyflogeion newydd sy'n gysylltiedig â'r fframwaith hwn, ac yn cael ei atgyfnerthu ganddi. Bydd y mathau newydd o ddiwylliant (Diben, Dysgu a Chanlyniadau) yn llywio'r safonau ymddygiad newydd sy'n cael eu llunio ar hyn o bryd ac yn disodli'r Safonau Rheolwyr a Chyflogeion.







- 2.5. **Rhaglen ar gyfer Gweinyddu** - Dyma weledigaeth wleidyddol y weinyddiaeth bresennol ac fe'i cytunwyd gan y Cabinet ym mis Ebrill 2018. Lluniwyd y Rhaglen i beri newid cadarnhaol a pharhaol yn Sir Benfro, a'i gyflawni gyda'n swyddogion, cynghorwyr, partneriaid ar draws y sector cyhoeddus, preifat a'r trydydd sector ac, yn bwysicaf oll, gyda chymunedau a phobl Sir Benfro. Mae'n amlinellu nodau a dyheadau'r Cabinet, a chaiff ei hadolygu'n flynyddol.
- 2.6. **Trawsnewid** – mae rhaglen drawsnewid y Cyngor wedi'i seilio ar dair thema, y mae pob un ohonynt yn cynnwys ystod o ffrydiau gwaith sydd wedi'u llunio i roi'r arfau sydd eu hangen ar reolwyr i wneud newidiadau a gwireddu gwelliannau effeithlonrwydd ac arbedion ariannol, yn unol â chynllun ariannol tymor canolig y Cyngor.
- **Trawsnewid technolegol** – manteisio i'r eithaf ar ein defnydd o dechnoleg i alluogi newid busnes, creu arbedion effeithlonrwydd a galluogi gweithlu mwy hyblyg.
  - **Trawsnewid diwylliannol** – datblygu diwylliant sydd wedi'i alinio â ffordd o weithio sy'n seiliedig ar werthoedd yn hytrach na rheolau.
  - **Trawsnewid perthynas** – creu partneriaeth newydd ar y cyd â'n staff a'n rhanddeiliaid allanol.




### 3. Cynllunio Corfforaethol

3.1. Mae sefydlu rheolaeth lwyddiannus ar berfformiad yn ddull cydlynol o ymdrin â chynllunio corfforaethol. Nid oes modd monitro cynnydd heb ddiffinio'n gyntaf yr hyn yr ydych yn ceisio ei gyflawni.

3.2. Yn fras, mae 4 cam i'n proses o gynllunio corfforaethol (sy'n cael eu dilyn eto bob blwyddyn):

- Adnabod ein hamcanion lles
- Cynllunio'r gweithredu
- Mesur ein perfformiad
- Adrodd ac adolygu ein cynnydd



3.3. Wrth geisio sicrhau perchnogaeth eang i amcanion llesiant y Cyngor, rydym ni'n ymdrechu i gynnwys ystod eang o randdeiliaid ar bob cam o'r broses hon. Er enghraifft, rydym ni'n cynnwys ein sefydliadau partner, defnyddwyr gwasanaethau a staff yn y gwaith o ystyried beth ddylai ein hamcanion llesiant fod. Anogir staff ar bob lefel o'r sefydliad i gyfrannu at y cynlluniau sy'n diffinio sut yr ydym ni'n cynnig cyflawni ein hamcanion. Bydd perfformiad yn cael ei fonitro mewn ystod o fforymau rheoli a fforymau aelodau etholedig, e.e. Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu ac Archwilio. Yn olaf, bydd trawstoriad o grwpiau'n cyfrannu i werthusiad Adolygiad Gwella blynyddol o gyflawniadau'r Cyngor (sy'n ysbrydoli ein blaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn ganlynol).

3.4. Dylai fframwaith rheoli perfformiad da fod yn fodd i unigolion sy'n gweithio i sefydliad weld y modd y mae eu gwaith yn cyfrannu at gyflawni amcanion cyffredinol y sefydliad. Rydym yn cyflawni hyn trwy gydgasglu a chyhoeddi cynlluniau aliniedig yn nhrefn eu pwysigrwydd. Mae'r cynlluniau uchaf yn disgrifio ein hamcanion, yn gosod y cyfeiriad strategol ac yn edrych ar bethau tros y tymor hir. I'r gwrthwyneb, adolygir cynlluniau adolygu perfformiad swyddogion unigol bob blwyddyn, a llawer o'r rhain ddwywaith y flwyddyn. Yn aml gelwir y ddolen rhwng y cynlluniau hyn yn "Llinyn Aur".





- 3.5. **Cynllun Llesiant i Sir Benfro** - Mae'r cynllun hwn yn fframio gweithgaredd sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol yn Sir Benfro dros gyfnod 2018-2030. Fe'i cynhyrchir mewn partneriaeth ag ystod o sefydliadau eraill. Mae'n disgrifio'r materion sy'n bwysig i Sir Benfro ac yn adnabod y dull y bydd ystod o sefydliadau'n ei fabwysiadu wrth geisio'u taclo. Seilir y Cynllun Llesiant ar ddadansoddi data o ystod eang o ffynonellau, a daethpwyd â'r wybodaeth hon ynghyd mewn "Asesiad Anghenion"<sup>1</sup>. Cymeradwyr y Cynllun Llesiant gan Fwrdd Gwasanaeth Cyhoeddus Sir Benfro<sup>2</sup> a'i ategu gan y Cyngor Sir (yn ogystal â Byrddau sefydliadau eraill). Mae'n gyson â'r saith nod llesiant cenedlaethol a amlinellwyd yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015.
- 3.6. **Cynllun Corfforaethol** – Dyma gynllun blynyddol blaenweledol sy'n adnabod ein Nodau Llesiant, yn rhestru'r gweithredoedd y byddwn ni'n eu dilyn yn ystod y flwyddyn y mae'n berthnasol iddo ac yn amlinellu'r mesurau a safonau perfformiad y byddwn ni'n eu defnyddio i fesur ein cynnydd. Y Cynllun Corfforaethol yw ein prif gynllun.
- 3.7. **Cynlluniau Cyfarwyddiaethau a Chynlluniau Gwasanaeth** – Mae rhai o'n gwasanaethau'n llunio cynlluniau unigol. Mewn achosion lle mae Cyfarwyddiaeth yn cynnwys gwasanaethau sydd â'r un diben, i raddau helaeth, lluniwyd cynllun Cyfarwyddiaeth er mwyn annog a gwella gweithio integredig. Caiff y rhain eu llunio'n flynyddol ac maent yn amlinellu'r camau gweithredu allweddol ar gyfer gwella ym mhob un o'n meysydd gwasanaeth. Mae'r camau gweithredu sydd wedi'u hamlygu wedi'u cysylltu â'r Cynllun Llesiant, yn ogystal â'r Amcanion Llesiant sydd wedi'u disgrifio yn ein Cynllun Corfforaethol a'n Rhaglen ar gyfer Gweinyddu. Mae'r cynlluniau hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i Gyfarwyddwyr/Penaethiaid Gwasanaethau a Rheolwyr hunanasesu eu perfformiad o'r flwyddyn gynt. Caiff canlyniadau'r gwerthusiad hwn eu hadrodd i'r Tîm Rheoli Corfforaethol. Mae hyn yn helpu i ddiffinio blaenoriaethau'r dyfodol i'r gwasanaeth a'r awdurdod yn ei gyfanrwydd. Caiff ein Cynlluniau Gwasanaeth eu cadarnhau ym mis Ebrill bob blwyddyn ar ôl cael eu hystyried gan Gyfarwyddwyr a'r Prif Weithredwr.
- 3.8. **Cynlluniau Tîm** – Fe all rhai o'n gwasanaethau mwy o faint hefyd gynhyrchu Cynlluniau Tîm, sy'n cynnwys mwy o fanylder. Mae'r cynlluniau hyn yn galluogi'r Cynlluniau Gwella a Thrawsnewid Gwasanaeth i gadw'u ffocws strategol, a galluogi Rheolwyr i dracio manylion yr hyn y maen nhw'n ceisio'i gyflawni ar yr un pryd.
- 3.9. **Arfarniadau Perfformiad** – Mae'r rhain yn elfen hanfodol o reoli perfformiad. Mae arfarniadau'n galluogi pob un o gyflogeion y Cyngor i amlygu sut mae'n cyfrannu at nodau'r tîm a'r sefydliad yn ei gyfanrwydd. Mae arfarniadau hefyd yn helpu i amlygu unrhyw gyfleoedd dysgu a datblygu a all helpu i gyflawni'r nodau hyn. Bydd newidiadau sylweddol i'r ffordd y mae arfarnu perfformiad yn gweithio yn cael eu cyflwyno yn ystod 2019.

<sup>1</sup> Cynhaliwyd asesiad anghenion cyn datblygu'r Cynllun Llesiant i addysgu adnabod blaenoriaethau ar gyfer gwella. Roedd yr asesiad anghenion yn cynnwys dadansoddiad o ddata a gwybodaeth o ystod eang o ffynonellau.

<sup>2</sup> Sefydlwyd Byrddau Gwasanaeth Cyhoeddus yn statudol ymhob ardal awdurdod lleol yng Nghymru er mwyn gyrru gweithio aml-asiantaeth yn unol â chanllawiau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.



## 4. Dangosyddion Perfformiad

- 4.1. Er mwyn monitro ein cynnydd yn erbyn yr amcanion sydd wedi eu nodi yn y cynlluniau a ddisgrifir uchod, rydym yn monitro ystod o ddangosyddion perfformiad yn barhaol. Mae'r gyfres o ddangosyddion yr ydym yn eu defnyddio yn cynnwys gwahanol fathau o fesurau amrywiol, rhai ohonynt wedi eu rhagnodi gan Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru. Mae modd categorieddion'r mathau o fesurau yr ydym yn eu defnyddio fel hyn:

Mesurau Atebolrwydd Cyhoeddus (PAMs)	<p>Yn 2016, dirymwyd Gorchymyn Llywodraeth Cymru (Dangosyddion Perfformiad) (Cymru) 2012, gan dynnu ymaith ddyletsrwydd llywodraethau lleol i gyflwyno data Dangosydd Strategaethol Cenedlaethol.</p> <p>Cyflwynwyd set newydd o fesurau perfformiad cenedlaethol maes o law yn eu lle – gelwir y dangosyddion hyn yn Fesurau Atebolrwydd Cyhoeddus (PAMs). O 2019/20 mae 33 o'r rhain, sy'n ymdrin ag ystod o wasanaethau awdurdodau lleol. Cyhoeddir data sy'n ymwneud â'r modd y mae pob awdurdod yn perfformio yn eu herbyn bob mis Gorffennaf/Awst.</p>
Fframwaith Rheoli Perfformiad Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant	<p>Rhaid i bob awdurdod lleol yng Nghymru ddarparu data sy'n ymwneud â'r modd y maen nhw'n perfformio yn erbyn y fframwaith hwn. Ar gyfer 2019/20 ceir 35 mesur (seilir 17 o'r rhain ar waith arolwg, mae 18 yn fesurau meintiol).</p>
Mesurau Lleol	<p>Mesurau a osodir yn lleol yw'r rhain. Eu bwriad yw mesur pa mor llwyddiannus ydym ni wedi bod wrth ddarparu elfennau penodol o'n gwasanaethau.</p>
Dangosyddion Cenedlaethol Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol	<p>Cyflwynwyd 46 dangosydd cenedlaethol yn 2016. Mae'r rhain yn caniatâu i sefydliadau gwasanaeth cyhoeddus ddangos sut y maen nhw'n cyfrannu at ddeilliannau cenedlaethol ac, yn aml, nid yw dangosyddion ar gael ar lefel ddaearyddol Sir Benfro. Yn ystod 2019, dechreuodd Llywodraeth Cymru adolygiad o sut y gellir datblygu targedau ar gyfer rhai o'r rhain.</p>

- 4.2. Rydym yn defnyddio 'cerdyn sgorio cytbwys'<sup>3</sup>, sy'n cynnwys mesurau o'r mathau hyn, er mwyn monitro a rheoli ein perfformiad yn barhaol. Mae'r cerdyn sgorio hefyd yn cynnwys mesurau sy'n cysylltu â'n hamcanion cyffredinol a'r nodau llesiant cenedlaethol. Ar gyfer y rhan fwyaf o'n mesurau, rydym ni'n gosod targedau uchelgeisiol i'n helpu i yrru gwelliant.

<sup>3</sup> Cyfres o fesurau a dangosyddion eraill yw'r cerdyn sgorio cytbwys, sy'n rhoi arwydd o berfformiad cyffredinol sefydliad, pan ystyri'r hwy ar y cyd. .





- 4.3. Mae'r cerdyn sgorio sydd wedi ei ddisgrifio uchod yn cael ei fonitro'n rheolaidd gan nifer o Fyrddau oddi mewn i'r Cyngor, y mae eu swyddogaethau a'u cyfrifoldebau wedi eu rhestru isod. Mae'r adroddiadau y mae'r Byrddau hyn yn eu hystyried yn tynnu sylw at faterion perfformiad mewn meysydd penodol ac yn disgrifio, ar gyfer pob mesur ar y cerdyn sgorio, a yw'r perfformiad yn mynd rhagddo'n iawn ai peidio, a yw perfformiad yn gwella neu ddirywio a'r modd y mae ein perfformiad yn ymddangos o'i gymharu ag eiddo awdurdodau lleol eraill yng Nghymru. Mae'r adroddiadau yn defnyddio dull sgorio syml, sef Coch, Melyn a Gwyrdd, er mwyn eu dehongli'n haws.

Y Cyngor	Mae'r Cyngor yn derbyn adroddiad blynyddol ar berfformiad ar ffurf Adolygiad Gwelliant. Mae'n gyfrifol hefyd am gymeradwyo Cynllun Gwella'r Cyngor.
Y Cabinet	Mae'r Cabinet yn monitro'r cerdyn sgorio corfforaethol bob chwarter. Mae'r Cabinet yn cwrdd hefyd â'r CMT yn rheolaidd, ac yn aml bydd yn trafod materion perfformiad yn y cyfarfodydd hyn.
Overview and Scrutiny Committees	Mae pum Pwyllgor Trosolwg a Chraffu, ond un o'r rhain sy'n canolbwyntio ar ddatblygu polisi. Mae'r gweddill ohonynt yn cael adroddiadau ar elfennau'r cerdyn sgorio corfforaethol sy'n berthnasol i'r maes y mae eu thema yn ei gwmpasu.
Y Tîm Rheoli Corfforaethol (CMT)	CMT yw'r fforwm lle mae Prif Weithredwr a Chyfarwyddwyr yr Awdurdod yn trafod materion gweithredol. Mae'r CMT yn monitro'r cerdyn sgorio corfforaethol bob chwarter. Mae Penaethiaid y Gwasanaethau yn mynychu'r CMT yn eu tro, i egluro'r ffactorau a allai fod yn dylanwadu ar berfformiad yn eu maes.
Directorate Management Teams (DMTs)	Mae'r rhain yn cyflawni swyddogaeth bwysig o ran helpu i sicrhau llif gwybodaeth o gwmpas yr Awdurdod. Maent hefyd yn ystyried gwybodaeth am berfformiad, gan gynnwys elfennau perthnasol y cerdyn sgorio corfforaethol, ac yn cydlynu'r gwaith o ddrafftio Cynlluniau Gwasanaeth.

- 4.4. Mae'r broses o reoli perfformiad yn llawer mwy cymhleth na dim ond monitro'r cerdyn sgorio drwy gyfrwng y mecanweithiau a ddisgrifir uchod. Mae'r weithred a ddilynir wedi i faterion gael eu hadnabod ar y lefelau hyn yn hanfodol. Bydd y Byrddau'n gwneud cais am ddiweddariadau ar y cyfarwyddiadau a roddwyd yng nghyd-destun materion perfformiad.



## 5. Monitro

---

- 5.1. Mae'r dangosyddion y mae'r cerdyn sgorio corfforaethol yn eu cynnwys yn bwysig o ran medru gweld ar amrantiad lle mae'r sefydliad wrthi unrhyw amser. Mae modd hefyd defnyddio'r wybodaeth hon i fonitro tueddiadau. Nid llai pwysig, fodd bynnag, yw'r camau gweithredu y mae'r Cyngor wedi ymrwymo iddynt er mwyn cyflawni ei amcanion.
- 5.2. Mae'r camau hyn wedi'u disgrifio, ar lefel uchel, yng Nghynllun Corfforaethol y Cyngor. Mae rhagor o fanylion wedi'u cynnwys ym mhob un o'r Cynlluniau Gwasanaeth. Caiff Cyfarwyddwyr, Penaethiaid Gwasanaethau ac uwch reolwyr eu dwyn i gyfrif am gyflawni camau gweithredu'r drwy'r Adolygiad Gwella sy'n cael ei gyhoeddi bob hydref. Mae hefyd yn ofynnol i Benaethiaid Gwasanaethau ddarparu diweddariadau chwarterol ar eu cynnydd tuag at gamau gweithredu, a gellir eu gwahodd i'r Tîm Rheoli Corfforaethol a/neu'r Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu i roi rhagor o fanylion.
- 5.3. Yn ystod yr ychydig flynyddoedd diwethaf, rydym wedi cychwyn nifer o fyrddau rheoli prosiectau sy'n cadw golwg ar brosiectau ar lefel rhaglenni, fel y Bwrdd Trawsnewid, y Bwrdd Adfywio Economaidd a Bwrdd Rhaglen yr 21ain Ganrif. Mae gan y Cyngor raglen gyfalaf sylweddol sy'n hanfodol i gyflawni nodau'r Rhaglen ar gyfer Gweinyddu. Mae'r byrddau hyn yn rheoli risg ariannol a chyflawni'r rhaglenni hyn.
- 5.4. Yn gyfochrog i'r byrddau rheoli prosiectau hyn, rydym yn rhan o nifer o bartneriaethau sy'n rheoli mentrau rhanbarthol neu amlasiantaeth. Mae'r rhain yn cynnwys Bargen Ddinesig Bae Abertawe, Ardal Fenter y Ddau Gleddau a Phartneriaeth Gofal Gorllewin Cymru. Er bod gan y mentrau hyn eu strwythurau llywodraethu eu hunain, mae'n anochel bod gan waith y partneriaethau hyn oblygiadau ar gyfer ein rheoli perfformiad ein hunain.



## 6. Hunanwerthuso

---

- 6.1. Un o elfennau pwysig unrhyw system reoli perfformiad yw'r broses o adolygu neu werthuso perfformiad. Y gwir yw bod hon yn broses barhaol y mae gweithwyr a rheolwyr yn ei dilyn bob dydd. Fodd bynnag, pwysig hefyd yw cynnwys amrediad eang o randdeiliaid mewn asesiad cyffredinol o berfformiad y Cyngor. Rydym yn cynnal asesiad o'r fath bob blwyddyn ac yn cyhoeddi'r canlyniadau ar ffurf Adolygiad Gwelliant.
- 6.2. Mae'r Adolygiad Gwelliant, yn ogystal â rhoi cyfrif am berfformiad ym mhob un o wasanaethau'r Cyngor, yn rhoi manylion ein cynnydd yn erbyn Cynllun Corfforaethol flwyddyn flaenorol. Mae'n un o'r prif fecanweithiau sy'n fodd i'n dal yn gyfrifol. Mae'n cynnwys set gynhwysfawr o ddangosyddion perfformiad, gyda chymariaethau â blynyddoedd blaenorol ac ag awdurdodau lleol eraill. Mae hefyd yn rhoi manylion cynnydd yn erbyn y camau gweithredu yn ein Cynllun Corfforaethol. Cyhoeddir yr Adolygiad Gwelliant ym mis Hydref bob blwyddyn wedi i'r Cyngor ei gymeradwyo.
- 6.3. Er bod cyhoeddi'r Adolygiad Gwelliant yn bwysig, y broses o hunanwerthuso ac asesu sy'n dylanwadu fwyaf ar allu'r sefydliad i sicrhau gwelliant parhaus. Mae'n cyflawni hyn dau fodd. Yn gyntaf, mae cynnwys rheolwyr, gweithwyr ac aelodau wrth lunio'r Adolygiad yn meithrin perchnogaeth well ar yr agenda er gwella. Mae hyn yn ei dro yn fwy tebygol o ysgogi'r cymhelliad cynhenid yr ydym yn gwybod ei fod yn hybu gwelliant i raddau mwy na dim ond rhoi cyfarwyddiadau. Yn ail, mae hunanwerthuso gwirioneddol agored ac onest yn gymorth i ddynodi blaenoriaethau ar gyfer y blynyddoedd sydd i ddod ac mae'n annog dysgu sefydliadol.
- 6.4. Mae ein hamserlen ar gyfer llunio'r cynlluniau adolygu, yn ogystal â'n cynlluniau corfforaethol, yr un bob blwyddyn. Mae'r dyddiadau cyhoeddi ar gyfer y Cynllun Corfforaethol a'r Adolygiad Gwelliant wedi eu diffinio yn y gyfraith, ond maent hefyd wedi eu llunio i symud ein cylch cynllunio cyllidebol ymlaen, sy'n gymorth i ni sicrhau bod digon o adnoddau ar gyfer ein trefniadau i gyflawni ein blaenoriaethau.
- 6.5. Rydym yn rhagweld y bydd cynigion i newid y fframwaith cyfreithiol yn cael eu cyhoeddi gan Lywodraeth Cymru ym mis Rhagfyr 2019. Ar sail archwiliadau anffurfiol a gynhaliwyd gan Lywodraeth Cymru, rydym yn disgwyl i'r fframwaith newydd roi llawer mwy o bwyslais ar hunanwerthuso. Mae'r Cyngor yn cefnogi'r cyfeiriad hwn.





## 7. Seilwaith ac Adnoddau

---

- 7.1. Cynhelir y system a ddisgrifir yn y ddogfen hon gan amrediad o adnoddau ac offer technegol sy'n gymorth i ni weithredu'r fframwaith. Dyma ddisgrifiad o rai o'r offer hyn.
- 7.2. **Aspireview** – Aspireview yw'r enw ar y system TG yr ydym ni'n ei defnyddio i gaffael, storio a rhannu gwybodaeth rheoli perfformiad. Mae Aspireview wedi'i wreiddio'n llwyr o fewn y Cyngor.
- 7.3. **Archwilio a chydymffurfio** – Rydym yn dibynnu ar nifer o wiriadau i sicrhau bod gwybodaeth am berfformiad yn gywir ac yn cael ei chyflenwi'n brydlon. Caiff yr holl ddangosyddion perfformiad cenedlaethol a lleol eu cyflwyno'n flynyddol, ynghyd â thaflen ardystio dangosyddion perfformiad. Mae'r daflen ardystio hefyd yn rhannu unrhyw gyfrifiad i'w rannau cydrannol er mwyn iddo fod yn fwy tryloyw (gellir croeswiro elfennau amrywiol). Yn ogystal, caiff gwybodaeth am berfformiad ei phrofi'n rheolaidd gan y swyddogaeth archwilio mewnol.

